# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (215)

# Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

Cyflwyno Aelod newydd

Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006

Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân

Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 o dan Reol Sefydlog 29

Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau

Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân

Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 o dan Reol Sefydlog 29

Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006 o dan Reol Sefydlog 29

Eitem 11 - Dadl wedi henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

Eitem 12 - Dadl ar Gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Michael German AC

.........................................

## Cyflwyno Aelod newydd

.........................................

## Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

.........................................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

.........................................

## Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006

**NDM3146 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:

***(1)+(2)***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru): TYNNWYD YN OL**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder na wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynnal unrhyw ymgynghoriad llawn gyda mudiadau anabledd a mynediad, cynghorau cymuned, mudiadau masnachwyr lleol neu fudiadau twristiaeth lleol cyn cyflwyno ei gais.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Awdurdodau Lleol sydd am wneud cais am bwerau i ddatgriminaleiddio parcio gynnal ymgynghoriad llawn gyda grwpiau anabledd a mynediad, cynghorau cymuned a mudiadau masnachwyr lleol cyn cyflwyno ceisiadau.

**NDM3147 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Yr Arfarniad Rheoliadol

.......................................

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

**NDM3148 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**NDM3149 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.......................................

## Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM3150 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**NDM3151 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**..........................................**

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 o dan Reol Sefydlog 29

**NDM3156 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**NDM3157 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006; a

2. Gan weithredu dan Reol Sefydlog 29.3 (iii), yn cymeradwyo bod Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

.........................................

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

**NDM3152 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**NDM3153 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 27 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.........................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006

**NDM3154 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**NDM3155 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.........................................

## Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 o dan Reol Sefydlog 29

**NDM3158 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NDM3159 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006; a

2. Gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii), yn cymeradwyo bod Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag**:**

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006; a
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

........................................

**Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006 o dan Reol Sefydlog 29**

**NDM3160 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NDM3161 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Mehefin 2006; a

2. Gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo bod Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

........................................

**Eitem 11 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru**

NDM3162 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo ei hun, mewn egwyddor, i gefnogi cais gan Gymru i lwyfannu Gemau'r Gymanwlad ac yn galw ymhellach am ddechrau'r gwaith ar fyrder, trwy gydweithredu â phob rhanddeiliad, er mwyn sicrhau'r nod hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:

***(1)+(2)***
***(3)+(4)***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau, os yw cais yn ymarferol, y bydd o fudd i Gymru gyfan.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Dylai gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y mater hwn, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, ddechrau gyda chyflawni dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr, fel rhan o astudiaeth dichonolrwydd.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar y diwedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw gais i lwyfannu Gemau'r Gymanwlad yn anelu at ddwyn budd i Gymru gyfan.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar y diwedd:

Yn derbyn mai 2018 fydd y cyfle nesaf i Gymru gynnal Gemau'r Gymanwlad ac yn credu, yn y cyfamser, y byddai gwella cyfleusterau trafnidiaeth, diwylliant a chwaraeon yn fuddsoddiad doeth.

**.........................................**

**Eitem 12 - Dadl ar Gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Michael German AC**

**NDM 3090 Mike German (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i ddiwygio:

a) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, am gyfnod o 3 blynedd, a
b) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

i hwyluso ac i ddarparu ar gyfer cymhelliant i ddeiliaid cartrefi osod technolegau micro-gynhyrchu yn eu cartrefi.

*Isod ceir datganiad o'r pwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud, ynghyd ag amlinelliad o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig:*

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn datblygu is-ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â:

Rhan C o’r Atodlen i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987;

Atodlen 2, Rhan 1 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 mewn perthynas â datblygiad sy’n ymwneud â micro-gynhyrchu; a

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, adrannau 11, 11B, 12 ac 13.

Byddai deddfwriaeth o’r fath yn sicrhau bod gofynion cynllunio yn hwyluso’r broses o osod technolegau micro-gynhyrchu; ac am gyfnod o dair blynedd bod gostyngiad yn y dreth gyngor i ddeiliaid cartrefi sy’n ymuno â chynllun.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Ychydig o gostau sydd ynghlwm wrth ddiwygio gofynion cynllunio - mân newid gweinyddol ydyw.

Byddai cost fechan ynghlwm wrth ddiwygio’r dreth gyngor, yn dibynnu ar y nifer a fyddai’n manteisio ar y cynllun ond pwrpas y ddeddfwriaeth a’r cymal is-set yw hybu mwy o ddiddordeb mewn micro-gynhyrchu a mwy o alw amdano. Mae ynni adnewyddadwy yn fater y mae’r llywodraeth yn gwario symiau sylweddol o arianarno trwy’r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau a’r Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Byddai’r gostyngiad cyfatebol yn y dreth gyngor a delir yn fychan iawn, er enghraifft, petai cymaint â 100,000 o dai’n manteisio ar y cynllun, byddai modd adennill y costau drwy sicrhau cynnydd o cyn lleied ag 1% yn y dreth gyngor a gesglir.

........................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

……………………………………………..

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**